

Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2019/20

Cyd-destun a chefnidir

Yr ysgol

Ysgol Arbennig cyfrwng Saesneg yn Rhondda Cynon Taf yw Ysgol Tŷ Coch ac mae'n rhan o gonsortium Canolbarth y De. Ar hyn o bryd, mae 172 o ddysgwyr ar gofrestr yr ysgol, ac mae 36 y cant ohonyn nhw yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM). Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 66 y cant yn fechgyn a 34 y cant yn ferched.

Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae'r tîm arwain yn cynnwys pennaeth, dau ddirprwy bennaeth a phedwar deiliad CAD. Mae gan yr ysgol 27 o athrawon yn ogystal â 60 o gynorthwyyr addysgu.

Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £12,409 ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020.

Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol

Defnyddiodd yr ysgol y grant ychwanegol i helpu i nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol a chynhaliwyd nifer o weithgareddau i hwyluso ei gweledigaeth dysgu proffesiynol.

Defnyddiodd Ysgol Tŷ Coch yr arolwg ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu i ddatblygu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. O'r arolwg gwaelodlin cychwynnol, nododd yr ysgol y blaenoriaethau canlynol i wella'r ysgol a defnyddiwyd y grant dysgu proffesiynol i gynorthwyo gyda nifer o weithgareddau:

- Cynyddu cydnheredd – gweithio'n agos gyda staff i weithredu ymyraethau amrywiol a dysgu proffesiynol er mwyn gwella a chynnal lefelau uchel o gydnerthedd. Mae'r effaith ar berfformiad, absenoldeb staff a phositifrwydd wedi bod yn ddiamheuol.
- Neilltuo amser – cyflwynodd yr ysgol strwythur newydd o fewn y tîm staff cymorth gan benodi wedyn dau gynorthwyydd addysgu lefel uwch newydd i arwain ar ymyraethau a rhyddhau athrawon dosbarth i ganolbwyntio ar arfer sy'n seiliedig ar ymholiad.

- Ffurio Fforwm Cynllunio'r Cwricwlwm – yn canolbwyntio ar ddehongli'r dogfennau Cwricwlwm i Gymru drafft, gan roi pwyslais penodol ar egwyddorion addysgeg a chyd-awduro rhaglen diwrnod cyfoethogi meysydd dysgu a phrofiad. Mae canlyniadau'r rhaglen hon wedi'u gwerthuso'n ffurfiol gan ddefnyddio Google Survey ac wedi'u hysgrifennu i ymholiad gan ddefnyddio methodoleg SPIRALS.
- Ffurio Grŵp Asesu ac Atebolrwydd – gan ganolbwyntio ar ddehongli gwahanol elfennau o *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl* gan gynnwys diwygio ADY i sicrhau bod yr ysgol yn asesu 'yr hyn sy'n bwysig' i'w dysgwyr.
- Ymholiad – penododd yr ysgol 'ymholwr arweiniol' anffurfiol a'i ryddhau i hyfforddi staff ar ei daith ymholi. Darparwyd hyfforddiant ar gyfer staff dethol, a defnyddiwyd dull ymholi ar gyfer yr amcanion yng nghynllun gwella'r ysgol.
- Cyhoeddi'r cynnig dysgu proffesiynol – gwnaeth y grant dysgu proffesiynol hwyluso rhyddhau'r dirprwy bennaeth i lunio a chynhyrchu dysgu proffesiynol yr ysgol yn ffurfiol, gan gysylltu'n agos â'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a diffinio'n glir ymagwedd yr ysgol tuag at gynnig dysgu proffesiynol cyfunol.

Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Mae'r effaith ar gydweithwyr yn yr ysgol wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae cydnheredd ac ysbryd y staff yn uchel. Mae absenoldeb yn isel ar y cyfan ac mae gan y rhan fwyaf o staff ymdeimlad gwell o ddeallusrwydd emosiynol a chydnerthedd. O ganlyniad, ceir methodoleg gref ar gyfer newid a diwylliant o ddyheadau uchel ac agwedd gadarnhaol yn Ysgol Tŷ Coch.

Mae nifer cynyddol o staff yn teimlo'n hyderus wrth gynnal ymholiad gyda nifer sylweddol yn dewis cynnwys hyn wrth reoli ei berfformiad.

Mae'r Rhaglen Diwrnod Cyfoethogi meysydd dysgu a phrofiad wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran gwella gwybodaeth a dealltwriaeth staff o *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*, y pedwar diben, egwyddorion addysgeg a'r meysydd dysgu a phrofiad.

Effaith y grant ar ddysgwyr

Roedd adborth gan aelodau'r cyngor myfyrwyr a gynorthwyodd gyda chynllunio'r diwrnod meysydd dysgu a phrofiad ar thema gwyddoniaeth a thechnoleg yn wych.

Hefyd, roedd gwaith Fforwm Cynllunio'r Cwricwlwm yn cynnwys adborth gan ddysgwyr, sydd wedi'i gynnwys yn nyluniad parhaus y cwricwlwm. Pwyslais y gwaith hwn oedd sicrhau bod y cwricwlwm a'r strategaeth asesu gysylltiedig yn adlewyrchu anghenion ychwanegol cymhleth iawn dysgwyr yr ysgol. O ganlyniad, mae Ysgol Tŷ Coch wedi gweld gwelliannau o ran presenoldeb, ymgysylltiad ac ymddygiad dysgwyr.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd cydbwysu hyfforddiant statudol (yn ymwneud â diogelu, codi a chario, cyfathrebu cyflawn) gyda gwella dysgu proffesiynol yn yr ysgol.

Mae 'ymgysylltu' gyda staff yn rheolaidd, gan gynnwys cwblhau'r arolwg ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, arolygon dienw byr ar-lein a hyfforddiant wyneb yn wyneb yn bwysig er mwyn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn sbarduno gwelliant yn yr ysgol.

Canfu'r ysgol fod y rhaglen diwrnod cyfoethogi meysydd dysgu a phrofiad yn gyfrwng effeithiol i greu dysgu cyfoethog i ddysgwyr a staff. Mae gwerthuso yn allweddol.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Dysgodd yr ysgol bwysigrwydd treulio amser gyda staff i lunio a chyhoeddi cynnig dysgu proffesiynol ffurfiol sy'n cyfeirio at y methodolegau a'r deunyddiau cyfunol sydd ar gael yn rhwydd.

Mae'r ysgol hefyd o'r farn ei bod yn hanfodol fframio cynnig yr ysgol ar nifer o brosesau systematig megis:

- hunanwerthuso ar y pryd
- ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu
- Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol – mae'n bwysig cael dealltwriaeth sicr o sut mae cynnig dysgu proffesiynol yr ysgol yn cyd-fynd â hyn
- cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol – mae hefyd yn hanfodol i sicrhau bod cynnig dysgu proffesiynol yr ysgol yn plethu i'r cynnig rhanbarthol ac yn cael y mwyaf ohono. Mae llawer o gyrsiau/digwyddiadau hyfforddi am ddim a all gyd-fynd â'r gwaith yn dda
- rhwydweithiau mewnol ac allanol – sicrhau bod yr ysgol mewn sefyllfa dda ar bob lefel i ymgysylltu mewn rhwydweithiau er mwyn dadansoddi ymarfer
- ymholiad
- bod yn gynhwysol – mae cynorthwyrwyr addysgu yn amhrisiadwy ar gyfer dysgu ac addysgu o ansawdd uchel
- trefnu amser ar gyfer dysgu proffesiynol o ansawdd uchel.

Camau nesaf

- Hyfforddi – bydd yr ysgol yn parhau i weithio i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael budd o hyfforddwr ar bob lefel o fewn yr ysgol.
- Ymholiad ac amser – bydd yr ysgol yn parhau i weithio'n greadigol i neilltuo amser a hyfforddiant i bob aelod o staff i ddefnyddio ymholiad yn rhan allweddol o'i ddysgu proffesiynol.